# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n bresennol:** | **Dydd Llun, 2 Tachwedd 2020** |
|---|---|
| **Cadeirydd :** | **Councillor J.D.Morgan** |
| **Is-gadwirydd:** | **Councillor A.R.Aubrey** |
| **Cynghorwyr**: | M.Harvey, J.Hurley, S.Miller, S.Pursey, S.Renkes, A.Llewelyn, A.J.Richards, S.K.Hunt a/ac E.V.Latham |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Furlow-Harris, K.Jones, C.Griffiths, S.Curran, C.Plowman a/ac S.Blewett |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2020 fel cofnod cywir.

Yna nododd yr Aelodau y canlynol:

- Eglurodd swyddogion bryderon blaenorol yr Aelodau ynghylch GDPR o ran Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) a'r lwfans gofalwyr sy'n cael ei hawlio; nodwyd er y byddai'n cael ei gadarnhau yn y cofnod, pe bai rhywun yn hawlio lwfans gofalwyr, dywedwyd bod y person yn derbyn y swm penodol hwnnw, ac na fyddai'r manylion a'r rheswm pam ei fod yn ei hawlio’n cael ei gyhoeddi.

- Rhoddodd yr ychydig Aelodau a oedd yn treialu Office 365 adborth cadarnhaol ar y system ac amlygwyd ei bod yn gweithio'n dda iawn ac yn ddarn hanfodol o gyfarpar i Aelodau ei gael ar eu ipads. Nodwyd bod Aelodau eraill wedi gofyn a ellid cyflwyno Office 365 i'r holl Aelodau gan fod y pecyn bellach wedi'i dreialu, a fyddai'n ddefnyddiol iawn yn enwedig yn ystod amgylchiadau presennol pandemig COVID-19; yr unig fater a godwyd oedd y gallai fod angen hyfforddiant ar rai Aelodau ar sut i ddefnyddio'r pecyn. Cadarnhaodd swyddogion fod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu wedi

trafod cefnogaeth TG i'r Aelodau a'u bod wedi cytuno y byddai arolwg yn cael ei gynnal mewn perthynas â pha gyfarpar oedd gan bob Aelod ac a oeddent yn cael unrhyw anawsterau wrth ddefnyddio'r cyfarpar, ac o hyn byddai'n ymchwilio i gyflwyno Office 365. Soniwyd ei fod wedi'i godi gyda Dave Giles (Rheolwr y Gwasanaeth TGCh) a byddai'r broses o wneud hyn yn dechrau yn yr ychydig wythnosau nesaf. Awgrymwyd y dylid codi'r mater o ddiweddariad o ran TG yr Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac efallai bydd y Grŵp Cyfeirio TG eisiau ystyried a fyddai angen cynnal cyfarfod rhwng nawr a'r cyfarfod hwnnw.

## 2. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL TALIADAU ANNIBYNNOL CYMRU 2021/22

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi'r newidiadau arfaethedig yn Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2021/22; cadarnhawyd bod yr adroddiad yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd ac y byddai'n dod i ben ar 23 Tachwedd 2020.

Rhestrwyd y tri newid arfaethedig fel y canlynol:

1: Mae'r IRPW yn cynnig y dylid cynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau £150 y flwyddyn, yn effeithiol o 1 Ebrill 2021. Bydd cyflogau uwch yn cynyddu ar yr un gyfradd (1.06%) â chyflogau sylfaenol.

2: Mae'r IRPW yn cynnig disodli'r cap misol o £403 ar gyfer ad-dalu costau gofal gyda'r trefniadau canlynol:
i. rhaid i bob awdurdod perthnasol ddarparu ar gyfer ad-dalu'r cyfraniad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr ffurfiol neu anffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn:
ii Caiff costau gofal ffurfiol (wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) eu had-dalu’n llawn
iii Caiff costau gofal anffurfiol (heb eu cofrestru) eu had-dalu hyd at uchafswm cyfradd sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Go Iawn ar yr adeg yr eir i'r costau

3. Mae'r IRPW yn cynnig cynnydd o £12.00 yn y ffioedd a delir i aelodau cyfetholedig (â hawliau pleidleisio).

Nodwyd bod Caryn Furlow-Harris (Rheolwr Strategol ar gyfer Polisi a Gwasanaethau Democrataidd) a Chadeirydd Pwyllgor y

Gwasanaethau Democrataidd yn bresennol mewn cyfarfod a hwyluswyd gan yr IRPW ar 21 Hydref 2020, lle trafodwyd yr adroddiad drafft; ymunodd cydweithwyr o gynghorau eraill yng Nghymru â hwy gan gynnwys Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Abertawe a Chyngor Ceredigion. Amlygwyd bod y rhan fwyaf o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y newid i'r cap misol o £403; roedd Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi rhoi nifer o senarios gwahanol i'r IRPW y dywedon nhw y byddent yn eu hystyried cyn cwblhau'r adroddiad terfynol a oedd i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2021.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chanran y cynnydd yr oedd yr IRPW wedi'i gynnig i gyflog yr Aelodau. Nodwyd bod 10 mlynedd o galedi lle nododd yr Aelodau wrth yr IRPW nad oeddent am weld cynnydd mawr i gydnabyddiaeth ariannol Aelodau yn ystod y cyfnod hwnnw; roedd cyfyngiadau cyflog a mesurau tebyg eraill yn cael eu rhoi ar waith yn ehangach ar draws y sector cyhoeddus, fodd bynnag, yn ddiweddar roedd hynny wedi newid a bu cynnydd mewn cyflogau staff addysgu, gweithwyr llywodraeth leol, gweision sifil, Aelodau Seneddol ac ati. Amlygodd swyddogion eu bod yn synnu nad oedd yr IRPW yn manteisio ar y cyfle yn yr adroddiad i ddechrau mynd i'r afael â'r bwlch sylweddol sydd bellach wedi datblygu rhwng y gyfradd meincnod a'r hyn yr oedd Aelodau'n cael eu talu mewn gwirionedd; byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Karen Jones, yn codi'r pwyntiau hyn yn ffurfiol gyda'r IRPW.

Mewn perthynas â'r trefniad dwy haen ynghylch costau gofal, nid oedd swyddogion yn fodlon bod yr IRPW wedi rhoi esboniad addas o'r rhesymu y tu ôl i drefniad dwy haen ac nad oeddent mewn gwirionedd yn egluro’r rhesymau pam nad oedd Aelodau'n hawlio'r hyn yr oedd ganddynt hawl iddo; Cadarnhaodd swyddogion yr hoffent weld rhagor o wybodaeth gan yr IRPW cyn i'r trefniadau gael eu cwblhau.

Dywedodd yr Aelodau y dylai fod dull tecach ar waith ar gyfer codiadau cyflog/lwfansau gan fod y rheini a oedd yn gymwys i gael cyflogau uwch ar hyn o bryd yn derbyn tipyn yn fwy na'r rheini a oedd ar gyflogau sylfaenol oherwydd bod y codiadau'n cael eu cyfrifo yn ôl canrannau. Soniodd swyddogion fod yr IRPW, tua ddwy flynedd yn ôl, yn bwriadu datblygu model gwahanol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol gan eu bod yn derbyn nad oedd y model presennol yn addas at diben; ers cyflwyno'r model, bu llawer o ddatblygiadau er enghraifft, Cydbwyllgorau Craffu, ac wrth i ddiwygiadau llywodraeth leol fynd yn eu blaen bydd llawer mwy o gydweithio sy'n sicrhau

cyfres newydd o ddyletswyddau, cyfrifoldebau ac ymrwymiad gan Aelodau. Cadarnhawyd, pan gysylltodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r IRPW mewn perthynas â'r pryderon, y byddai'r pwynt ynghylch y ffaith nad yw’r cynnydd yn adlewyrchu faint o waith a chyfrifoldebau yr oedd yr Aelodau'n ymgymryd ag ef yn cael ei godi. Awgrymwyd y gallai'r IRPW gynnal cyfnod ymgynghori yn y lle cyntaf, gyda thrafodaeth ynghylch sut beth bydd y model yn y dyfodol.

Trafododd y pwyllgor bwysigrwydd cydraddoldeb a sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyflwyno’i hun fel ymgeisydd i fod yn Aelod Etholedig; helpodd y lwfansau rai pobl i allu gwneud hyn e.e. y rheini y byddai angen iddynt dalu am ofal plant. Amlygwyd na ddylai fod unrhyw stigma gan y cyfryngau nac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas ag Aelodau'n hawlio'r lwfansau yr oedd ganddynt hawl iddynt; roedd problemau o hyd ynghylch amgyffrediad y cyhoedd o'r hyn y mae Aelodau Etholedig yn cael eu talu. Gofynnwyd a allai'r cyngor gyfathrebu neu gynnwys unrhyw wybodaeth ynghylch y mater hwn gan ei fod wedi'i reoli'n wael yn flaenorol a gafodd effaith ar y rheini mewn llywodraeth leol ac o ganlyniad ni wnaeth rai ohonynt hawlio’u harian.

O ran lwfans gofal yr Aelodau, nodwyd bod yr Aelodau'n amharod o hyd i hawlio'r lwfansau er gwaethaf y gwaith a gwblhawyd ar draws Cymru a'r anogaeth yr oedd y cyngor wedi'i darparu; roedd hefyd yn amlwg gyda lwfansau teithio, gan mai ychydig iawn o Aelodau a hawliodd am deithio oni bai eu bod yn mynd i gostau sylweddol oherwydd y teithiau hir o'r canolfannau dinesig. Amlygwyd bod problem ddiwylliannol gyda'r ffordd y mae'r cyhoedd yn amgyffred y taliadau hyn; roedd yn rhaid i'r cyngor fod yn barod i gefnogi Aelodau a'u hannog i hawlio'r hawliadau. Cadarnhawyd y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifennu ymateb i'r IRPW ynghylch y pryderon a fynegwyd gan Aelodau ac yn darparu copi i Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Ychwanegwyd bod lle hefyd i aelodau unigol a/neu grwpiau gwleidyddol gyflwyno sylwadau i'r panel yn ogystal; gofynnwyd a oedd modd rhannu'r ddolen i allu gwneud hyn â'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:** 1. Bod yr Aelodau'n nodi'r Adroddiad Blynyddol drafft a'r penderfyniadau arfaethedig ar gyfer 2021/22.

2. Bod yr Aelodau'n cytuno i ymateb byr i'r ymgynghoriad a bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi ymateb y cyngor ar ran y pwyllgor gan gynnwys:

(i) Gofyn am eglurder a thryloywder o ran y manylion i helpu i gynorthwyo /cefnogi aelodau

(ii) Cyfleu pryderon/sylwadau'r Aelodau mewn perthynas â'r cynnydd canrannol i'r IRPW

## 3. GWE-DDARLLEDU/ CYFRANOGIAD CYHOEDDUS

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad diweddaru mewn perthynas â chyflwyno gweddarlledu cyfarfodydd y cyngor a gwella cyfranogiad cyhoeddus i'r broses ddemocrataidd y cafodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y dasg o'i chwblhau gan y cyngor. Nododd yr adroddiad fod cychwyniad pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar gynnydd y gwaith ac y byddai hyn yn newid y cynigion fymryn. Amlygodd yr adroddiad y gwaith a wnaed eisoes ar y cynigion, sefyllfa bresennol y cyngor mewn perthynas â gweddarlledu a chyfranogiad cyhoeddus a'r cynlluniau yn y dyfodol; soniwyd bod y pandemig wedi cyflymu a chymryd drosodd llawer o'r gwaith a gynlluniwyd yn flaenorol.

Amlygodd swyddogion fod yr elfen weddarlledu wedi'i gohirio am na chynhaliwyd cyfarfodydd yn y canolfannau dinesig a'u bod yn cael eu cynnal yn rhithwir ar y pecyn meddalwedd *Microsoft Teams*; ar hyn o bryd roedd cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu recordio gan ddefnyddio'r cyfleusterau ar *Teams* ac yna'n cael eu lanlwytho ar-lein i'r cyhoedd eu gweld. Roedd yr adroddiad yn manylu bod y broses bresennol yn gweithio'n llwyddiannus ac yn nodi amrediad ffigurau gwylio'r cyfarfodydd cyhoeddus gan gynnwys Pwyllgor Craffu'r Cyngor a'r Cabinet; Roedd swyddogion yn falch o'r nifer a oedd yn gwylio'r cyfarfodydd, a oedd yn llawer uwch na'r hyn y gellid ei gyflawni pan oeddent yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd cyfarfod dynodedig yn y canolfannau dinesig, gan wella cyfranogiad cyhoeddus.

Hysbyswyd y pwyllgor fod staff yn cyhoeddi'n rheolaidd pa gyfarfodydd oedd yn cael eu cynnal bob wythnos ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwe-dudalennau'r cyngor er mwyn ceisio cael hyd yn oed mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd. Cadarnhawyd y bu adegau pan oedd aelodau o'r cyhoedd a'r wasg wedi bod yn bresennol yn ystod y cyfarfodydd rhithwir. Ychwanegwyd bod swyddogion eisoes wedi dechrau paratoi'r camau nesaf yn barod ar gyfer cam nesaf Bil Llywodraeth Leol Cymru y rhagwelwyd y byddai'n manylu ar ddisgwyliadau o weddarlledu a chyfranogiad cyhoeddus ar gyfer pob cyngor ledled Cymru.

Dywedwyd bod y cyngor wedi gwneud llawer o gynnydd o ran yr agweddau technoleg yn ystod y pandemig; Roedd swyddogion yn falch o'r gwaith yr oedd yr Aelodau wedi'i gwblhau gyda'r Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm TG i sicrhau bod gan bob Aelod Etholedig yr hyn yr oedd ei angen i allu cymryd rhan yn y cyfarfodydd a oedd yn cael eu cynnal o bell. Sylwyd y bu cynnydd ym mhresenoldeb yr Aelodau mewn cyfarfodydd; roedd y model gweithio o bell yn cynnig rhai buddion, yn enwedig i'r rheini a oedd â chyfrifoldebau eraill.

Un o'r pethau negyddol a nodwyd oedd nad oedd cyfarfodydd dwyieithog y cyngor wedi'u cynnal gan nad yw cynnyrch *Microsoft* yn galluogi trefniad cefnogaeth cyfarfodydd dwyieithog;  Roedd swyddogion wedi bod yn gwneud ymholiadau gyda *Microsoft*, ond ar hyn o bryd nid oedd amserlen ar gyfer ei gyflwyno. Amlygwyd bod y Senedd wedi gallu darparu cyfarfodydd dwyieithog a bod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda gweithwyr cefnogi'r Senedd ynglŷn â sut yr oeddent wedi cyflawni hyn; fodd bynnag, nodwyd y byddai llawer o waith yn gysylltiedig â rhai goblygiadau cost sylweddol pe bai'r cyngor yn mabwysiadu'r model. Ychwanegodd swyddogion eu bod yn gobeithio gweld gwelliannau ar y mater hwn ar gyfer Cymru gyfan dros y misoedd nesaf.

O ran cyfranogiad cyhoeddus, nodwyd bod rhywfaint o waith wedi'i gwblhau mewn perthynas â hyrwyddo'r ffaith bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal ac esbonio sut gallai'r cyhoedd gymryd rhan yn y cyfarfodydd byw a sut gallent gael mynediad at y recordiadau ar ôl i'r cyfarfod gael ei gynnal; nid oedd hyn wedi costio unrhyw arian i'r cyngor. Yn yr adroddiad roedd swyddogion yn cynnig y dylid gwneud cynnydd dros y misoedd nesaf ar rai o'r elfennau eraill a drafodwyd yn flaenorol, yn benodol:

1. Archwilio’r nodwedd deiseb ym meddalwedd *Mod Gov*; gellid treialu hyn yn fewnol i ddeall sut mae'n gweithio a sut gall y cyngor symud hynny yn ei flaen os oes angen gwneud hynny fel rhan o ganlyniad i'r dyletswyddau cyfreithiol newydd a fyddai'n cael eu cynnwys ym Mil Llywodraeth Leol Cymru.

2. Gwella'r llywio o gwmpas y gwe-dudalennau cyhoeddus; roedd rhywfaint o waith eisoes wedi'i gwblhau yn y cefndir ynghylch hyn a byddai'n parhau er mwyn symleiddio'r ffordd y mae pobl yn cael gwybod am y broses ddemocrataidd, gan sicrhau bod y cyngor yn annog pobl i'w defnyddio.

Nododd yr Aelodau fod y cyngor wedi gwario llawer llai o arian yn cynnal cyfarfodydd o bell drwy *Microsoft Teams* a'u recordio, na'r hyn a fyddai wedi'i wario ar weithredu'r cynlluniau gwreiddiol yr oedd angen ei ystyried yn y dyfodol. Ychwanegwyd hefyd fod angen i'r gefnogaeth y mae'r cyngor wedi'i dangos i gyfarfodydd hybrid (cyfarfodydd lle gall rhai pobl gyfarfod wyneb yn wyneb ac eraill o bell) gael ei hychwanegu hefyd at y ffordd newydd ymlaen.

Mynegwyd pryderon mewn perthynas â dibynadwyedd y dechnoleg y byddai angen ei amlygu i Lywodraeth Cymru pe bai'r cynlluniau yn y dyfodol yn parhau â chyfarfodydd o bell gan y gallai fod angen cymorth ariannol ar y cyngor i ddatrys rhai materion technolegol. Dywedodd swyddogion fod goblygiadau cost y dyletswyddau newydd wedi'u codi'n flaenorol gyda Llywodraeth Cymru a bod y cyngor yn parhau i weithio gyda CLILC ynghylch y costau; y gobaith oedd y byddai setliad ariannol ychwanegol ynghylch y maes gwaith penodol hwn. Ychwanegwyd bod y ffocws hyd yma wedi bod ar gostau technoleg, fodd bynnag roedd angen rhoi rhywfaint o ffocws ar yr effaith yr oedd y dyletswyddau newydd yn ei chael ar amser staff; Roedd swyddogion yn gweithio gyda CLILC i ddarparu tystiolaeth ynghylch goblygiadau staff.

Soniwyd bod Cyngor Sir Gâr, ar gyfer Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe, wedi bod yn defnyddio math o drefniant ffôn i'r rheini a oedd yn dymuno gwrando ar y cyfarfod yn Gymraeg, fel mesur dros dro; Gofynnodd yr Aelodau a allai'r cyngor ymchwilio i hyn hefyd fel mesur dros dro. Amlygodd swyddogion y gellid gwneud trefniadau cyfieithu ar gyfer Aelodau sy'n siarad Cymraeg a oedd yn dymuno i gyfarfodydd gael eu cynnal yn Gymraeg, a fyddai'n diwallu anghenion unigol yr Aelodau, fodd bynnag un o ddibenion Deddf yr Iaith Gymraeg oedd gwneud y Gymraeg yn weladwy. Awgrymwyd pe na bai modd datrys y mater penodol hwn yn gyflym, y gallai Aelodau sy'n siarad Cymraeg ddewis siarad Cymraeg yn ystod cyfarfodydd cyn belled â'u bod yn barod i esbonio'r hyn a ddywedon nhw yn Saesneg; gellid cynnwys hyn mewn protocol yn y dyfodol. Cytunodd swyddogion hefyd i ganfod y trefniadau a oedd gan Gyngor Sir Gâr ar waith ar gyfer cyfarfodydd dwyieithog.

Un o'r buddion a godwyd o ran cyfarfodydd o bell oedd bod Aelodau wedi gallu dod i arfer â'r syniad o recordio cyfarfodydd a'r ffaith y gellid eu hadolygu; roedd hyn yn caniatáu i Aelodau ddysgu rhywfaint o'r moesgarwch sy'n dod gyda hyn. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i ddefnyddio *Microsoft Teams Live* i ddarlledu cyfarfodydd pan fyddant yn cael eu cynnal. Nodwyd bod

cynghorau eraill wedi gwneud hyn ac y gallai ennyn diddordeb y cyhoedd ymhellach; Nid oedd yr Aelodau a'r cyhoedd bob amser yn ymwybodol o'r amserlen ar gyfer lanlwytho'r recordiadau ar-lein, a allai arwain at ddiffyg diddordeb. Soniodd swyddogion fod y staff yn gweithio tuag at darged o lanlwytho'r recordiadau ar yr un diwrnod ag y cynhaliwyd y cyfarfod; bu problemau technegol yn y gorffennol wrth lanlwytho'r recordiad i YouTube, ond y dylai’r problemau hyn gael eu datrys yn y dyfodol.

Cadarnhawyd yr ystyriwyd *Microsoft Teams Live* pan ddechreuwyd defnyddio'r dechnoleg gweithio o bell; roedd llawer mwy o waith cefndir yn gysylltiedig â'r nodwedd benodol hon, ac ni chafodd ei defnyddio ar y dechrau gan mai'r brif flaenoriaeth oedd sicrhau bod cyfarfodydd yn cael ei cynnal yn hwylus a bod y staff yn dysgu sut i ddefnyddio'r dechnoleg. Hysbyswyd yr Aelodau mai'r trefniadau presennol oedd bod y cyngor yn hysbysebu cyfarfodydd ar-lein yn rhagweithiol ac y byddai aelodau o'r cyhoedd yn derbyn dolen a manylion cyswllt ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd pe byddent yn nodi eu bod am wylio cyfarfod yn fyw; nid oedd y cyfarfodydd yn cael eu ffrydio'n fyw, yn hytrach yn cael eu recordio a'u lanlwytho i YouTube. Dywedodd swyddogion y gellid archwilio ffrydio cyfarfodydd yn fyw pe bai'r pwyllgor yn cytuno i hyn, gan y byddai'n darparu recordiad o'r cyfarfod i'r cyhoedd yn syth ar ôl i'r cyfarfod gael ei gynnal; fodd bynnag, er nad oedd y gwaith hwn wedi cael effaith ariannol ar y cyngor, soniwyd ei fod wedi cael effaith ar amser y staff gan fod y gwaith ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a TG yn sylweddol.

**PENDERFYNWYD:** 1. Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn y gwaith a roddwyd i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ym mis Gorffennaf 2019 – i gyflwyno gweddarlledu cyfarfodydd y cyngor a gwella cyfranogiad cyhoeddus yn y broses ddemocrataidd.

2. Bod Aelodau'n nodi effaith sefyllfa frys COVID-19 ar yr argymhellion a baratowyd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â gweddarlledu cyfarfodydd y cyngor ac yn nodi'r newidiadau a gymeradwywyd gan y cyngor ym mis Gorffennaf 2020.

3. Bod Aelodau'n cymeradwyo'r camau nesaf ar gyfer datblygu'r gwaith mewn perthynas â chyfranogiad cyhoeddus, sef:

- beth fyddai'n gysylltiedig â sefydlu trefniad deisebu, o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno hyn fel dyletswydd statudol a bod gan y cyngor eisoes system TGCh a allai gefnogi cynllun o'r fath;
- opsiynau ar gyfer cyflwyno hawliau cynulleidfa ar gyfer cyfarfodydd penodol;
- gwelliannau i'r tudalennau democratiaeth ar wefan y cyngor;
- esbonio'r blaenraglenni gwaith a'r dulliau sydd ar gael i'r cyhoedd os ydynt yn dymuno dylanwadu ar agendâu a thrafodaethau.

Yn ogystal â'r uchod:

- Darganfod yr hyn sydd gan Gyngor Sir Gâr ar waith mewn perthynas â chyfieithu Cymraeg yn ystod cyfarfodydd/ymchwilio ymhellach i gynnig cyfarfodydd dwyieithog.
- Archwilio ffrydio cyfarfodydd yn fyw.

## 4. STRWYTHUR Y TÎM GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd strwythur presennol y tîm Gwasanaethau Democrataidd a'r strwythur arfaethedig newydd i'r Aelodau. Nodwyd bod Rheolwr yr Uwch- bwyllgor a Gwasanaethau'r Aelodau wedi ymddeol ac yn hytrach na llenwi'r rôl benodol honno, roedd y ddwy uwch-rôl yn y tîm wedi'u cyfuno i'r rôl yr oedd Stacy Curran wedi'i phenodi iddi (Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd); cyflwynwyd y strwythur i'r Aelodau i adlewyrchu'r newid hwnnw ac i nodi nad oedd y cynigion i ddisodli'r uwch-rôl, ond yn hytrach greu rôl gradd 7.

Dywedwyd bod y rheolwyr yn bwriadu llenwi rhai o'r swyddi gwag yn y strwythur, ond nid pob un ohonynt ar hyn o bryd oherwydd y dyletswyddau newydd a gweithredu'r newidiadau mewn technoleg yr oedd angen ymdrin â nhw; roedd angen datblygu cadernid yn y strwythur presennol, fodd bynnag byddai'n cael ei adolygu eto pan fyddai'r trefniadau cefnogi tymor hwy yn glir. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai Cydbwyllgorau Corfforaethol yn cael eu sefydlu o dan Ddeddf Diwygio Llywodraeth Leol ac nid oedd yn glir iawn o hyd beth fyddai'r gefnogaeth i hynny'n ei olygu ychwaith.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y strwythur arfaethedig a nodir yn Atodiad 2 a chymeradwywyd y newid hwn i'r cyngor.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2018-19**

Derbyniodd yr Aelodau Flaenraglen Waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2020/21.

Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith nad oedd pedwar o'r pum Pwyllgor Craffu wedi'u hailsefydlu a chyfarfod i graffu ar eitemau o fewn eu cylchoedd gwaith eto; Ar hyn o bryd, roedd Pwyllgor Craffu'r Cabinet yn craffu ar eitemau o'r holl gyfarwyddiaethau o fewn y cyngor.

Dywedodd swyddogion fod cynghorau ledled Cymru wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog yn gofyn cwestiynau mewn perthynas â threfniadau craffu ac roedd ymateb i'r llythyr hwnnw yn gyfle i ystyried yr hyn yr oedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi'i wneud ers dechrau COVID-19 a oedd yn cynnwys:

- Sefydlu fersiwn electronig yn gyflym o'r weithdrefn Cam Gweithredu Brys, pan nad oedd yn bosib trefnu cyfarfodydd. Roedd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu wedi bod yn rhan o'r weithdrefn hon o'r cychwyn cyntaf;
- Drwy gydol y pandemig roedd y cyngor wedi ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am faterion drwy anfon bwletinau a thrwy recordio sesiynau briffio gan yr Arweinydd ac Arweinwyr gwrthbleidiau;
- Ym mis Mehefin/mis Gorffennaf, Castell-nedd Port Talbot oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gynnal cyfarfod cyngor llawn. Hefyd yn ystod y cyfnod hwn, cyn toriad mis Awst, cafodd pob un o'r Pwyllgorau Craffu gyfarfod i hysbysu'r Aelodau o'r hyn yr oedd y cyngor wedi'i wneud hyd yn hyn yn ystod y pandemig ac amlinellodd y fframwaith yn y dyfodol;
- Trefnwyd Pwyllgorau Craffu ar ffurf gweithdy, ar gyfer mis Medi ymlaen, fel y gallai'r pwyllgorau unigol nodi pa feysydd yr hoffent ganolbwyntio arnynt; cymerodd amser sylweddol i drefnu'r gweithdai hyn gan nad oedd gan swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd gylch o gyfarfodydd i weithio o'u cwmpas.

Amlygwyd y byddai'r Pwyllgorau Craffu yn y dyfodol yn cyfarfod mewn modd ychydig yn wahanol oherwydd yr amgylchiadau presennol; fodd bynnag, roedd cylch o gyfarfodydd wedi'i sefydlu a threfnwyd y byddai pob Pwyllgor Craffu yn cael cyfarfod cyn y Nadolig, yn ogystal â threfnu cyfarfodydd ychwanegol ar gyfer y flwyddyn newydd. Cadarnhaodd swyddogion fod pob Pwyllgor Craffu

wedi nodi'r pynciau yr hoffent ganolbwyntio arnynt, felly bydd yr agendâu ar gyfer y cyfarfodydd hynny'n cynnwys yr hyn yr oedd y pwyllgor ei hun wedi'i benderfynu; roedd hefyd yn bwysig nodi y byddai'r Blaenraglen Waith a oedd yn manylu ar y penderfyniadau yr oedd disgwyl i'r Cabinet eu gwneud yn cael ei ystyried gan y Pwyllgorau Craffu a bod y cyfrifoldeb ar y pwyllgor i benderfynu beth yr oeddent am ei ystyried o ran craffu cyn penderfynu. Ychwanegodd swyddogion na fyddai Byrddau'r Cabinet yn cael eu hailsefydlu eto oherwydd llwythi gwaith ac adnoddau.

Rhoddwyd lefel arall o sicrwydd i'r Aelodau, sef pan oedd swyddogion wedi nodi bod penderfyniadau mawr i'w gwneud ar gyfer rhai gwasanaethau, y darparwyd cyngor y gellid ymdrin â'r penderfyniadau penodol hyn o fewn Cyd-bwyllgor rhwng Pwyllgor Craffu'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu perthnasol arall i sicrhau nad oedd yr Aelodau Craffu'n cael eu difreinio. Amlygodd swyddogion eu bod yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir gyda chyfarfodydd, gan ystyried y pwysau presennol ar wasanaethau a sut roedd yr amgylchiadau presennol wedi effeithio ar niferoedd staff. Soniwyd y gellid cynnal adolygiad o'r model presennol yn y flwyddyn newydd, gan ystyried adborth yr Aelodau.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol gyd-destun i'r Aelodau ynghylch yr eitem agenda yn y dyfodol ar y Blaenraglen Waith 'Sefydlu Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygu'r Cyfansoddiad'. Dywedwyd mai dyletswydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fel Swyddog Monitro oedd sicrhau bod y cyfansoddiad yn gyfredol a'i fod yn cynnwys yr holl sail gyfreithiol ar gyfer unrhyw benderfyniadau a wnaed o fewn y cyngor; dros y misoedd nesaf, rhagwelwyd y byddai rhai newidiadau i Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru y byddai angen eu hadlewyrchu yn y cyfansoddiad. Hysbyswyd yr Aelodau bod y cyfansoddiad wedi'i ddiweddaru dros y misoedd diwethaf i adlewyrchu darpariaethau newydd, ac ym mis Rhagfyr byddai swyddogion yn gofyn i'r cyngor llawn osod tasg i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd sef sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i gwblhau adolygiad llawn o'r cyfansoddiad, a fyddai'n cynnwys ei wneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu â swyddogion os oeddent yn dymuno bod yn rhan o'r Grŵp Tasg a Gorffen.

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**